**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.00am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, ddydd Iau 11 Mai 2017**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd Dros Dro)
Gareth Wynn Davies, Huw Davies, Illtud Dunsford, Helen Howells, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru)
Gareth Wilson (Llywodraeth Cymru)

**Y Weithrediaeth:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

**Tîm Rheoli Eitemau 6a – 6e:** Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Prys Morgan (Rheolwr Cysylltiadau â'r Diwydiant a Chyfnewid Gwybodaeth)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
Owen Roberts (Arweinydd Cyfathrebu)

1. **Croeso ac Adroddiad y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd newydd eu penodi (y Bwrdd) i'w cyfarfod cyntaf o Fwrdd HCC.

*Trafod Materon*

O ran cynnal cyfarfodydd o'r Bwrdd, cytunwyd y gwahoddid y tîm Rheoli i fod yn bresennol ar gyfer rhannau gweithredol y cyfarfodydd.

Nododd y Cadeirydd fod y broses o sefydlu'r Cyfarwyddwyr wedi ei gwblhau a bod yr adborth yn bositif.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i bwysleisio taw swyddogaeth y Bwrdd oedd canolbwyntio ar Strategaeth a Llywodraethiant a sicrhau modd i gyfathrebu'n effeithiol â'r diwydiant. Byddai'r Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu yn cyfarfod maes o law er mwyn trafod sut i fynd i'r afael â'r olaf.

Ers cael ei benodi roedd y Cadeirydd wedi treulio llawer o'i amser yn paratoi gyda'r Prif Weithredwr ar gyfer sefydlu'r Bwrdd, hybu'r gwaith ar Famwladoli Ardoll a mynychu gwahanol gyfarfodydd yn ymwneud ag ymadael â'r UE.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan John T Davies.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Cafodd y Bwrdd ei atgoffa gan y Cadeirydd fod rhaid llenwi'r gwaith papur sy'n ymwneud â Datganiadau o Fuddiannau a'i gyflwyno i'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eu nodi ar gyfer y cyfarfod o'r Bwrdd.

4. **I dderbyn a mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 3 Mawrth 2017 (HCC 742)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 3 Mawrth 2017 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Nodwyd bod y cofnodion i'w cyfeirio atynt yn unig gan y Bwrdd y tro hwn; roeddynt eisoes wedi cael eu derbyn yn gofnod cywir o'r cyfarfod gan Gadeirydd blaenorol HCC, Dai Davies.

5. **Materion yn codi**

*Materion Strategol Cyswllt Ffermio*

Nodwyd ei bod er budd Llywodraeth Cymru a HCC os oedd darpariaeth Cyswllt Ffermio yn effeithiol, blaenoriaethol ac yn cyd-fynd ag anghenion strategol y diwydiant. I'r perwyl hwn, roedd yn ymddangos fod yna weithio mwy cydlynol / cydgysylltiedig erbyn hyn a oedd yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Bu'r Prif Weithredwr yn cynrychioli HCC ar Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio ac roedd cynrychiolwyr o adran Datblygu'r Diwydiant yn HCC wrthi'n trafod prosiectau a mentrau ar y cyd â Chyswllt Ffermio.

*Cymdeithas Enwau Bwyd Gwarchodedig (PFN) y DG – Diogelu'r Cynlluniau PFN a brandiau premiwm eraill ar ôl Brexit*

Nid oedd diweddariad i'w roi. Fodd bynnag, byddai HCC yn dal i adolygu'r maes allweddol hwn ac yn diweddaru'r Bwrdd.

*Adolygiad o Ystodau Pwysau Ŵyn Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ)*

Nodwyd bod AHDB yn arwain yr adolygiad â chydweithrediad QMS a HCC. Y prif nod oedd ystyried a oedd yr ystodau pwysau SQQ yn briodol ac a ddylid ystyried dewisiadau eraill.

*Y Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg (CHAWG) a'r Grwp Iechyd a Lles Defaid (SHAWG)*

Byddai HCC yn cael ei gynrychioli ar y naill a'r llall o'r grwpiau uchod yn y dyfodol. Byddai angen cadarnhau cynrychiolaeth HCC gyda'r ddau grŵp.

*Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ŵyn Ysgafn*

Roedd adroddiad am y sector Ŵyn Ysgafn a oedd yn tynnu sylw at yr heriau a'r cyfleoedd ac yn amlinellu'r camau ymarferol y gellid eu cymryd yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a byddai ar gael i'r Bwrdd ei ystyried maes o law.

*Cig Defaid Drwy'r Croen*

Nid oedd diweddariad i'w roi. Fodd bynnag, nodwyd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gael arian i fynd i'r afael â'r materion diogelwch bwyd a godwyd gan yr Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd (EFSA). Gallai hyn yn ei dro arwain at ddatblygu protocol ar gyfer cynhyrchu cig defaid drwy'r croen.

*Bord Gron Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru*

Nodwyd bod nifer o Aelodau'r Bwrdd wedi cymryd rhan yn y fforwm uchod, ynghyd â chynrychiolwyr o'r sectorau amgylchedd, amaethyddiaeth a choedwigaeth.

Pwrpas y Ford Gron oedd cynghori'r Llywodraethon ar yr heriau a'r cyfleoedd mewn cysylltiad â Brexit a sut gallai'r rhain yn eu tro lunio dyfodol masnach a chymorth i'r diwydiant.

*Cais HCC am gyllid i Lywodraeth Cymru –rhaglen datblygu allforion yn well*

Ni chafwyd ymateb hyd yma gan Lywodraeth Cymru i gais HCC am gymorth o £1.5m am gyfnod o dair blynedd i ariannu rhaglen datblygu allforion yn well.

6. **Adroddiadau HCC**

Ymunwyd â'r cyfarfod gan y tîm Gweithredol.

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 743)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cafodd y Bwrdd ei ddiweddaru gan y tîm Gweithredol ynghylch prif weithgareddau HCC:-

***Cyfathrebu***

Nodwyd bod HCC mewn trafodaeth â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ynghylch cydweithio ar addysgu disgyblion am fwyd a maeth yn unol â'r cwricwlwm, yn enwedig am bwysigrwydd cig coch fel rhan o ddiet

cytbwys. Roedd HCC wrthi ar hyn o bryd yn cyhoeddi adnoddau addysgu newydd i'w dosbarthu mewn ysgolion. Roedd yn bosibl y câi'r rhain eu lansio yn Sioe Frenhinol Cymru.

Hefyd, roedd HCC yn cydweithio â Chig mewn Addysg er mwyn cynhyrchu darnau fideo byr yn Gymraeg a Saesneg am sgiliau coginio i blant.

Roedd yn fwriad ailwampio gwefan Corfforaethol HCC yn ystod y flwyddyn ariannol hon, er mwyn gwneud y safle'n haws ei ddefnyddio a chynnwys rhagor o ddeunydd graffeg, yn ogystal â'i wneud yn addas ar gyfer ffonau symudol. Câi hyn ei ystyried gan y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a'r Weithrediaeth maes o law.

***Strategaeth a Pholisi Corfforaethol***

*Llywodraeth Cymr*u – *Gweithdy Amaeth Datgarboneiddio 2050*

Roedd HCC yn un o bedwar sefydliad allanol a wahoddwyd i gymryd rhan yn natblygu'r Llwybr Datgarboneiddio ar gyfer Amaethyddiaeth fel rhan o Raglen Ddatgarboneiddio Cymru hyd at 2050.

*Amaeth Cymru – Gweithdy Strategaeth Amaeth*

Roedd HCC yn bresennol yn yr uchod, a gynhaliwyd 13 - 14 Mawrth 2017. Y negesau allweddol yn ystod y ddau ddiwrnod oedd pwysigrwydd:

- Rhagor o bolisïau integredig nad ydynt yn gwrthdaro, sydd yn hyblyg ac ymatebol, ac sydd yn caniatáu atebion oddi mewn i fframwaith genedlaethol.
- Canolbwyntio ar flaenoriaethau tra bod yn feddwl-agored ynghylch datblygiadau newydd / gwahanol
- Cydnabod fod dibynnu ar allforion a datblygu a manteisio ar gyfleoedd sy'n bodoli a chyfleoedd newydd – rhoddwyd sylw mynych yn ystod y trafod i'r rhan y gallai "Brand Cymru" ei chwarae
- Buddsoddi mewn effeithlonrwydd / bod yn fwy cystadleuol
- Ychwanegu gwerth at y gadwyn gyflenwi – h.y. datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer prosesu, etc. yng Nghymru
- Cyd-ddibyniaeth cynhyrchu, yr amgylchedd a'r tirwedd – pwysigrwydd sylfaenol iechyd y pridd, etc. o ran cynnal cyfalaf naturiol, pwysigrwydd y defnydd o adnoddau a rhan y sector fel gwarcheidwad adnoddau naturiol.
- Technoleg, ymchwil a datblygu ac arloesedd – nodwyd bod y sector yn araf o hyd yn derbyn technoleg newydd
- Gwella sgiliau a chamu ymlaen mewn gyrfaoedd yn y sector

Nodwyd y câi canfyddiadau'r gweithdy eu defnyddio wrth ddatblygu Strategaeth Amaethyddol i Gymru.

*Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020*

Dywedwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn dal i ddatblygu ffyrdd o grynhoi gweithgareddau a gyllidir gan y Cynllun Datblygu Gwledig mewn un Fenter Strategol Amaethyddol. Byddai hyn yn rhoi mecanwaith canolog ar gyfer adolygu busnesau fferm a choedwigaeth ac i ddefnyddio'r asesiad ganlynol i'w galluogi i gael hyd i gymorth priodol ac i ddatblygu eu busnesau.

Roedd HCC yn cael ei gynrychioli ar y Grŵp Gweithredol a sefydlwyd i helpu i ddatblygu hyn ac i ganfod ymyriadau strategol a fyddai'n ategi ymgysylltiad â'r diwydiant.

Roedd y Grŵp yn dal i ystyried gweithgareddau cymwys a allai fod ar gael i ffermwyr er mwyn ysgogi ymgysylltu a chymell newid.

Ar hyn o bryd roedd HCC hefyd am ddatblygu ymhellach gysyniadau strategol Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi sydd yn ategol i'r prosiect hwn er mwyn cael rhaglenni gwaith i'r sector cig coch, megis oes silff ac ansawdd bwyta cig a gwelliant genetig yn y sector fynydd.

***Datblygu'r Diwydiant***

Roedd HCC wrthi'n chwilio am Ysgolorion newydd ar gyfer 2017. Gwahoddwyd y Bwrdd i annog ceisiadau. Roedd manylion pellach ar gael ar wefan Gorfforaethol HCC, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 19 Mehefin 2017.

Nodwyd bod y Gymdeithas Ysgoloriaeth bellach yn ei hugeinfed blwyddyn a bod trefniadau ar waith i nodi hyn, efallai â digwyddiad yn Sioe Frenhinol Cymru.

***Datblygu'r Farchnad***

Yn ddiweddar roedd HCC wedi arddangos yn TuttoFood, Milan, un o'r sioeau bwyd mwyaf yn Ewrop gyda dros 80,000 o ymwelwyr (8 – 11 Mai 2017). Cafwyd cyfarfodydd yn ystod y Sioe â mân-werthwyr a dosbarthwyr o'r Eidal sy'n gwerthu Cig Oen Cymru PGI ar hyn o bryd, yn ogystal ag â phrynwyr o ledled Ewrop, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica.

Nodwyd bod llai o gig wedi ei werthu i'r Eidal y llynedd, yn bennaf oherwydd pwysau economaidd a mewnforion rhad o Romania a Bwlgaria.

Câi papur HCC ar fynediad i farchnadoedd allforio ei rannu â'r Bwrdd ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Nodwyd taw enillwyr cystadleuaeth Ar Lawr Gwlad Cig Eidion Cymru PGI oedd Clwb Rygbi dan-12 oed Trecelyn. Cafwyd nifer o ymgeiswyr ar gyfer y wobr o sesiwn hyfforddi gyda cyn-chwaraewr y Scarlets, Phil John, £1,000 tuag at offer a dillad chwarae newydd a barbeciw ar gyfer Cig Eidion Cymru PGI.

Roedd HCC yn un o'r prif noddwyr yn nigwyddiad Llywodraeth Cymru, "Blas ar Gymru" yng Ngwesty'r Celtic Manor yn ystod mis Mawrth 2017. Roedd y digwyddiad yn arddangos bwydydd gorau Cymru ac roedd cynrychiolwyr o fân-werthwyr a chwmnïau gwasanaethau bwyd y DG, ynghyd â phrynwyr o dramor yn bresennol.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 744)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 745)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Sioe Frenhinol Cymru 24 – 27 Gorffennaf 2017*

Rhoddid manylion i'r Bwrdd am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru eleni yn y cyfarfod nesaf.

d. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Mawrth 2017 (HCC 746)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

e. *Diogelu Gwybodaeth a Diogelu Data*

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol fod HCC ar hyn o bryd yn ceisio am achrediad ar gyfer Cyber Essentials Plus.

Cytunwyd y dylid trafod y pwnc hwn yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn y dyfodol ac y câi'r Bwrdd adroddiad am hyn.

7. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi briffio'r Bwrdd eisoes ynghylch yr uchod fel rhan o'r rhaglen sefydlu.

Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

8. **<u>I fabwysiadu Cynllun Gweithredol HCC ar gyfer 2017 / 2018 ac i ystyried datblygu'r Cynllun Gweithredol drafft ar gyfer 2018 / 2019</u>**

*<u>Cynllun Gweithredol HCC ar gyfer 2017 / 2018</u>*

Ystyriwyd y ddogfen uchod a phenderfynodd y Bwrdd i beidio â'i mabwysiadu hyd nes iddo ystyried y rownd nesaf o gynllunio; gwnâi hynny mewn gweithdy cyn bo hir (gweler isod). Cytunodd y Bwrdd y dylai'r sefydliad weithio yn unol â'r cynllun presennol hyd nes bod gweithrediadau'r gweithdy wedi eu cwblhau.

*<u>Cynllunio - Cynllun Gweithredol HCC ar gyfer 2018 / 2019</u>*

Nodwyd taw cyfrifoldeb y Bwrdd oedd sicrhau cyflawniad HCC yn unol â'r Cynllun Gweithredol blynyddol a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru. Oherwydd hynny, roedd angen mewnbwn cynnar gan y Bwrdd cyn llunio Cynllun Gweithredol 2018 / 2019. Felly, cynigiwyd cynnal gweithdy i'r Bwrdd a'r tîm Gweithredol yn ystod prynhawn ddydd Iau 6 Gorffennaf 2017 a thrwy ddydd Gwener 7 Gorffennaf 2017.

Pwrpas y gweithdy fyddai dechrau trafod blaenoriaethau, gan gynnwys cyllidebau, gweithgareddau arfaethedig, materion yn ymwneud â'r diwydiant, e.e. y goblygiadau ar ôl Brexit a sut y gallai'r rhain gael effaith ar gyflawniad HCC.

Cynigiwyd hefyd y dylid rhoi cyflwyniadau i'r Bwrdd ar nifer o bynciau megis tueddiadau yn y marchnadoedd byd-eang, pwysigrwydd lleoli brandiau, cynhyrchu a phrosesu cig coch o Gymru a chyfathrebu â thalwyr Ardoll..

Byddai'r Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol yn arwain y trefniadau gyda mewnbwn gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Byddai'r manylion yn cael eu rhannu â'r Bwrdd maes o law.

**Gweithredu: Y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol**

9. **<u>I gael papur yn amlinellu cyfranogiad y Cyfarwyddwyr Anweithredol ar Bwyllgorau HCC (HCC 747)</u>**

Cafodd drafft o'r uchod ei roi gerbron y Bwrdd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am lenwi'r matricsau cymhwysedd. Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Bwrdd gyfranogi fel a ganlyn ym Mhwyllgorau HCC:-

*<u>Pwyllgor Monitro'r Cynllun Gweithredu (Strategaeth)</u>*

Claire Williams (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies
Helen Howells
Kevin Roberts

*Iechyd a Lles Anifeiliaid*

Catherine Smith (Cadeirydd)
Huw Davies
Barrie Jones

*Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg*

Gareth Wynn Davies (Cadeirydd)
John T Davies
Catherine Smith
Ogwen Williams

*Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu*

John T Davies (Cadeirydd)
Kevin Roberts
Catherine Smith
Ogwen Williams

*Y Pwyllgor Cynghori  ar Farchnata*

Helen Howells (Cadeirydd)
Illtud Dunsford
Barrie Jones
Rachael Madeley Davies

*Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol*

Rachael Madeley Davies (Cadeirydd)
John T Davies
Kevin Roberts

*Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth*

Huw Davies (Cadeirydd)
Illtud Dunsford
Claire Williams

Gwahoddwyd Aelodau'r Bwrdd i gysylltu â'r Prif Weithredwr yn uniongyrchol erbyn dydd Iau 25 Mai 2017 os oeddynt am wneud unrhyw sylwadau ynghylch yr aelodaeth arfaethedig o'r Pwyllgorau.

10. **Papur er gwybodaeth – Argymhellion o Adolygiad Llywodraeth Cymru o HCC gan Kevin Roberts (HCC 748)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r argymhellion naill ai wedi eu cyflawni neu bod y gwaith mynd yn ei flaen

11. **I fabwysiadu'r Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 3 Mawrth 2017 (HCC 749)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

12. **I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid**

Rhoddodd y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol (Rheolwraig penodedig EIDCymru) gyflwyniad ar swyddogaeth EIDCymru.

Cafodd llwyddiant EIDCymru hyd yma ei ganmol gan y Bwrdd gyda chydnabyddiaeth i gydymdrech Swyddogion Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth HCC a staff EIDCymru.

13. **Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Iau 6 Gorffennaf 2017.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**